



Rhifyn 3 - 2021

Helo a chroeso cynnes i e-fwletin Mannau Gwyrdd a Diogel Casnewydd.



Cyflwynir y cylchlythyr hwn gan
Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran
partneriaeth Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Casnewydd yn Un.



Diolch i'r rhai a fynychodd weithdy'r Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel ym mis Ebrill 2021; Gobeithio ichi gael eich difyrru a'ch symbylu wrth weld cymaint sy'n digwydd yng Nghasnewydd! Mae gennym ddigonedd o syniadau yn ogystal ar gyfer y gweithdy nesaf dros yr Haf.

Mae croeso i chi gysylltu os oes gennych chi unrhyw beth yr hoffech ei gynnwys mewn e-fwletinau sydd ar ddod. Rydw i yma unrhyw adeg i helpu i hyrwyddo eich prosiectau, felly anfonwch nhw ataf ar bob cyfri.

Harriet Bleach, Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel

harriet.bleach@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Twitter [@harriet_bleach](https://twitter.com/harriet_bleach)

Gweledigaeth a Chamau Newydd ar gyfer Mannau Gwyrdd a Diogel

Mae gan Gasnewydd ecosystemau llewyrchus iach lle mae pob cymuned yn teimlo'n gysylltiedig â natur a bod ganddynt fynediad hawdd i fannau gwyrdd a glas diogel o ansawdd da ar gyfer iechyd, lles, chwarae a hamdden

Mae'n gyffrous cael rhannu a lansio Gweledigaeth a Chamau newydd ar gyfer Mannau [Gwyrdd a Diogel](#)! Yn dilyn gweithdy ym mis Ionawr gyda grŵp llywio a oedd yn cynrychioli aelodau o bob rhan o'r Rhwydwaith, cymeradwywyd y camau newydd hyn gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mawrth 2021. Mae'r Weledigaeth a'r Camau newydd yn estyniad ac yn ddiweddariad o'r fersiynau blaenorol ac yn cynrychioli ein hamcanion ar y cyd ar gyfer manau Gwyrdd a Diogel ledled Casnewydd, a byddant yn gweithredu fel canllaw defnyddiol i lywio, cefnogi a chyflawni gwaith y Rhwydwaith.

Cam 1: Cynnal, diogelu, gwella a chynyddu natur, seilwaith gwyrdd a glas, iechyd a gwydnwch ecosystemau, manau gwyrdd cysylltiedig a bioamrywiaeth ledled Casnewydd.

Cam 2: Deall materion diogelwch a chymryd camau i leihau rhwystrau sy'n effeithio ar ddefnydd unigolion a chymunedol o fannau gwyrdd, a galluogi fynediad hawdd i bob cymuned.

Cam 3: Grymuso pob cymuned i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o wneud penderfyniadau a rheoli manau gwyrdd lleol yn y tymor hir, gan gysylltu pobl â natur er mwyn gwireddu'r llu o fanteision o ran iechyd a llesiant.

Prosiectau ledled Casnewydd

Mae yna lu o brosiectau ar y gweill yng Nghasnewydd, a byddwn wrth fy modd yn clywed gennych er mwyn eu cynnwys yn yr e-fwletinau sydd ar ddod. Dyma'r newyddion diweddaraf am rai ohonynt.



Branch Out

Mae Branch Out yn brosiect ar gyfer pobl ifanc 15 - 25 sydd yn eu hannog i Fynd i'r Awyr Agored, Bod yn Weithgar a Chysylltu! Mae'r sesiynau a'r gweithgareddau yn yr awyr agored yn helpu i wella iechyd a lles ac maent yn amrywio o arddio i fynd am dro o gwmpas Tŷ Tredegar a'r tir o'i

amgylch.

Gweler y [poster](#) am fwy o wybodaeth, a chysylltwch â'r tîm drwy e-bost am fwy o fanylion: changingminds@newportmind.org

Strategaeth Sbwriel Casnewydd

Yn y rhifyn hwn, rydym yn clywed gan Steve Preddy, Cydlynnydd Strategaeth Sbwriel Casnewydd. "Dair blynedd yn ôl, dechreuwyd menter gyda'r nod o fynd i'r afael â phroblem sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghasnewydd. Mae cyrff y sector cyhoeddus, grwpiau gwirfoddol ac unigolion



eisoes yn gwneud llawer iawn o waith yn cael gwared ar wastraff o'n dinas, ond mewn rhai ardaloedd mae'n anodd datrys y problemau. Y dasg gyntaf oedd deall ble oedd yr ardaloedd hyn, felly cynhaliwyd arolwg dros flwyddyn a oedd yn cwmpasu holl ardal drefol Casnewydd: ardaloedd preswyl, tir masnachol a manau gwyrdd. Mae canlyniadau'r arolwg i'w gweld ar [wefan Strategaeth Sbwriel Casnewydd](#).

Gan ddefnyddio'r holl wybodaeth hon, nodwyd 52 Parth Gweithredu â Blaenoriaeth lle'r oedd graddau'r broblem sbwriel neu dipio anghyfreithlon yn arbennig o wael, neu oherwydd yr effaith weledol neu'r effaith ar yr amgylchedd. Mewn rhai achosion, roedd gwaith eisoes ar y gweill e.e. ym man gwyrdd Barrack Hill lle mae Cyngor Dinas Casnewydd yn arwain y gwaith, ac ym Mhillgwenlli, lle mae'r grŵp

cymunedol Pride in Pill yn gwneud gwaith rhagorol. Mewn ardaloedd eraill, dechreuwyd ar y broses o ddatblygu cynlluniau gweithredu, gwnaed gwaith gwych trwy gydol 2019 a dechrau 2020... ac yna tarodd cyfyngiadau COVID. Yn ddealladwy, roedd yn rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd gwtogi ar ei waith yn cefnogi grwpiau sbwriel cymunedol; doedd grwpiau sbwriel cymunedol ddim yn gallu cynnal digwyddiadau mewn grwpiau mawr, ac yn y blaen.

Fodd bynnag, gyda rhywfaint o ailgynllunio creadigol, roedden ni'n gallu dechrau rhoi ein cynlluniau ar waith mewn sawl safle: yn enwedig o gwmpas Afon Wysg trwy ganol Casnewydd, lle casglodd gwirfoddolwyr Pride in Pill a Cadwch Gymru'n Daclus gannoedd o fagiau o sbwriel cyn i Gyngor Dinas Casnewydd eu gwaredu. Mae grwpiau gwirfoddol eraill fel Newport East Litter Pickers yn bwriadu aildechrau eu gwaith cyn bo hir a byddan nhw'n mynd i'r afael â rhai o'r parthau eraill. Gydag amser, rydyn ni'n gobeithio llunio cynlluniau i ddelio gyda phroblemau hanesyddol pob un o'r 52 parth." Dim ond un elfen o waith y strategaeth yw hon; am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Steve Preddy, Cydlynnydd Strategaeth Sbwriel Casnewydd steve.preddy@me.com

Ymunwch â'ch grŵp codi sbwriel lleol trwy [glicio yma](#), neu ar y dolenni isod:

Grwpiau yng Nghasnewydd

- [Celtic Horizons Litter Pickers](#)
- [Duffryn Dusters](#)
- [Graig Best Kept Villages](#)
- [Lliswerry Ward community litter pick](#)
- [Newport East Litter Pickers](#)
- [Pride in Bettws](#)
- [Pride in Pill](#)
- [Rogerstone Routes](#)
- [St Julians Litter Pick Group](#)
- [Green Caerleon](#)
- Llwybrau drwy Goetiroedd i Lesiant: [Facebook](#), [Twitter](#)
- [Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad a'r Gamlas – y Pedwar Loc ar Ddeg/Allt-Yr-Ynn](#)
- [Marshfield Magpies Action Group](#) neu cysylltwch â'r grŵp [yma](#)

Digwyddiadau Rhithwir

Digwyddiadau rhithwir Lefelau Byw - Mai 2021

Llanw Anferth Aber Afon Hafren

Mae Aber Afon Hafren yn profi'r llanw uchaf namyn un ar y blaned!

Dydd Iau, 20 Mai

19:00 - 20:00



[ARCHEBWCH EICH LLE](#)

Fflandrys Fechan tu hwnt i Gymru; Whitson fel anheddiad cynlluniedig ar y Lefelau

Mae tebygrwydd trawiadol rhwng Gwastadau Gwent a'r Gwledydd Isel ond a oes cysylltiad cryfach?

Dydd Mercher, 26 Mai

19:00 - 20:00

[ARCHEBWCH EICH LLE](#)

Credyd Llun: Chris Harris/Partneriaeth Lefelau Byw



Sesiynau natur ar-lein Coed Lleol

Mae Coed Lleol yn parhau i helpu pobl ledled Cymru i wella eu lles trwy gysylltu â natur. Ewch i'w [gwefan](#) i ddysgu mwy am y themâu ac i gofrestru!

Dydd Llun - Gwyllo Natur

Dydd Mawrth - Chwilota a Maethiad

Dydd Gwener - Ymwybyddiaeth ofalgar

Digwyddiadau rhithwir coetir cymunedol Llais Y Goedwig

Mae gan Llais Y Goedwig hefyd galendr llawn o [ddigwyddiadau ar-lein](#), yn cynnwys pynciau ar lechyd a Lles gyda Choetiroedd Cymunedol ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc. Ewch i'w gwefan neu cysylltwch â'r tîm ar: booking@llaisygoedwig.org.uk



Map Seilwaith Gwyrdd Casnewydd



Mae'n gyffrous cael rhannu'r newyddion fod gennym fap newydd amlhaenog o Gasnewydd sy'n dangos manau gwyrdd hygrych, coetiroedd, parciau, gwarchodfeydd natur, ardaloedd cadwraeth, ymylon gwyrdd, a manau glas, ffosydd draenio, afonydd a gwlyptiroedd. Mae hefyd yn cynnwys data am ansawdd aer, data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), cyfraniad manau gwyrdd tuag at reoli perygl llifogydd a lefel gyffredinol llystyfiant a chynefin mewn gerddi.

Mae partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un wedi gweithio gydag [Environment Systems](#) er mwyn casglu'r wybodaeth hon am fannau gwyrdd a glas ledled Casnewydd gyda'r nod o'i defnyddio i helpu i lywio penderfyniadau cynllunio, gwarchod manau gwyrdd trwy ddangos eu gwerth, cyfrannu i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, cyfrannu i'r Aseiad Seilwaith Gwyrdd, llywio ymarferion

rheoli mannau gwyrdd megis newid trefnau torri gwair, helpu i greu coridorau gwyrdd a chysylltu mannau gwyrdd, a'n helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu a gwella mannau gwyrdd o safon i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

Rydym yn gweithio ar sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn eang trwy ap neu borth ar-lein, a thrwy adnoddau all-lein, fel y gall pobl Casnewydd ddarganfod beth sydd ar steplen eu drws, darganfod ble i deithio am eu hiechyd a lles ac er mwyn eu hannog i greu cynefinoedd a phlannu mwy yn eu gerddi.

Dangosfwrdd data mannau gwyrdd a diogel

Mae gennym fap nawr hefyd sy'n dangos tipio anghyfreithlon ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnau tân yn fwriadol mewn mannau gwyrdd. Bydd hwn yn cael ei ddiweddarau bob chwarter ac yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Dinas Casnewydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Taclo Tipio Cymru; sy'n gweithio mewn partneriaeth er mwyn deall yn well y sefyllfa bresennol a chanolbwyntio ymdrechion ar sicrhau mannau gwyrdd sy'n ddiogel a hygyrch i bawb.

Adferiad Gwyrdd



Credyd Llun: Chris Harris/Partneriaeth Lefelau Byw

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cyfleoedd Gwyrdd

Dyma [rifyn gwanwyn 2021 'Cyfleoedd Gwyrdd'](#) gan Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r diweddariadau chwarterol yn rhannu'r arferion gorau a'r hyn a ddysgwyd er mwyn cynnal adferiad gwyrdd Cymru yn sgil COVID-19 a'r nod yw i gynnig ysbrydoliaeth ar gyfer ystod o gyfleoedd cynaliadwy a fydd yn cyfrannu tuag at ddyfodol iach, teg a chynaliadwy i Gymru. Mae'r rhifyn hwn yn canolbwyntio ar ynni a llygredd aer.

Lansiad Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR2020)



Yn ôl ym mis Rhagfyr y llynedd, rhyddhaodd CNC Ran Un o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR2020) gyda chynnwys am bwysau, effeithiau a chyfleoedd i weithredu. Nawr, mae Rhan Dau SoNaRR2020 wedi'i chyhoeddi ac mae'n cynnwys asesiadau llawn yn ôl ecosystem a thema drawsbynciol.

- [Crynodeb Gweithredol SoNaRR2020](#)
- [Cofrestrï Adnoddau Naturiol](#) manylach yn cynnwys ffeithluniau rhyngweithiol defnyddiol

Gyda'i gilydd mae'r adroddiadau [SoNaRR2020](#) yn cynrychioli sylfaen dystiolaeth bwysig i'w defnyddio gan Weinidogion Cymru, sefydliadau sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol wrth iddynt greu polisi, gwneud penderfyniadau cynllunio ar sail gwybodaeth ac ysgrifennu cynlluniau rheoli. Mae'r adroddiadau hefyd yn hygyrch i unigolion a sefydliadau gan fod gennym ni gyd rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR) yng Nghymru.

Argymhelliad allweddol SoNaRR2020 yw bod angen i ni "*weithredu dros bobl a'r blaned*", ac ystyried yr ecosystem (rheoli adnoddau naturiol), yr economi (cymhellion a rheoleiddio) a'r gymdeithas (systemau cymdeithasol, gwerthoedd ac ymddygiad) wrth "*drawsnewid ein systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth*".

Polisi Cynllunio Cymru - Mannau gwyrdd, iechyd a lles

Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Rifyn 11 Polisi Cynllunio Cymru](#). Mae'n dda gweld bod y rhifyn hwn yn cynnwys negeseuon cryf am gynnwys iechyd cyhoeddus yn y broses gynllunio, gwella llesiant trwy greu lleoedd, a chreu:

“mannau cynaliadwy sy'n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn actif, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar”.



Mae canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a'u perthynas â Themâu a Nodau Llesiant Polisi Cynllunio Cymru yn creu darlun gwych o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweld hyn yn cael ei fynegi ar lawr gwlad.

Isod ceir rhai ohonynt sy'n berthnasol i Fannau Gwyrdd a Diogel. Mae nodweddion Mannau Cynaliadwy yn cynnwys...

- Bioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn
- Seilwaith gwyrdd integredig
- Yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- Mannau gwyrdd hygyrch ac o safon uchel
- Yn hygyrch drwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a ddim yn ddibynnol ar geir
- Yn lleihau'r angen i deithio ac yn sicrhau mynediad cyfartal
- Yn teimlo'n ddiogel ac yn gynhwysol ac yn cefnogi poblogaeth amrywiol
- Yn hyrwyddo iechyd a llesiant corfforol ac iechyd a llesiant meddyliol

Hyfforddiant ac Adnoddau



- Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru lu o adnoddau dysgu cyffrous a [chysiau hyfforddiant](#) ar y gweill ar gyfer addysgwyr awyr agored ar themâu megis 'Iach a Hapus - yn Naturiol!', 'Plentyndod Naturiol - Hyfforddiant Blynyddoedd Cynnar yn yr Awyr Agored' a 'Coed, Coetiroedd Campus'. Dilynwch y dolenni uchod i ddarllen mwy, a [chysylltwch â'r tîm addysg](#) am fwy o wybodaeth.
- Mae [Trees for Cities](#) yn cynnig amrywiaeth o adnoddau yn rhad ac am ddim sy'n cynnwys [Pecyn Cymorth Dysgu yn y Gwyllt](#) er mwyn annog plant i ymgysylltu'n synhwyraidd â byd natur a phlannu coed.
- Mae [Lefelau Byw yn cynnig adnoddau dysgu](#) sy'n seiliedig ar hanes, diwylliant ac amgylchedd tirwedd unigryw Gwastadeddau Gwent.
- Gweithgareddau cymunedol rheolaidd sy'n cysylltu pobl o bob oedran a chefnidir drwy fwyd yw'r fenter [Dewch at Eich Gilydd: Bwyd am Oes](#). Ewch i'r wefan i ddysgu mwy ac i gael mynediad at offer, deunydd, syniadau, awgrymiadau a chynghor ar weithgareddau [tyfu](#), [coginio](#) a [rhannu bwyd](#) unwaith mae'r cyfyngiadau yn caniatáu hynny. Yn y cyfamser, mae [Mis Plannu a Rhannu](#) yn dathlu tyfu eich bwyd eich hun, a rhwng 19 Ebrill ac 19 Mai, anogir y genedl i balu, hau, tyfu a rhannu llysiau gyda'u cymunedau.

Cyllido



Cyllido Cymru

Platfform newydd er mwyn dod o hyd i arian yw [Cyllido Cymru](#) a grëwyd gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Gallwch chwilio am gannoedd o gyfleoedd am arian grant ac arian benthyg o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. O grantiau bychain i

brosiectau cyfalaf mawr, fe all eich helpu i ddod o hyd i'r arian sydd ei angen arnoch.

Dyma restr isod o ychydig o'r cyfleoedd am arian.

Cronfa Dreftadaeth Y Loteri Genedlaethol

- [Cronfa Rhwydweithiau Natur](#) i gryfhau gwydnwch rhwydwaith Cymru o dir gwarchoddedig a safleoedd morol, gan gefnogi adferiad gwyrdd i natur a chymunedau. Grantiau ar gael rhwng £50,000 a £500,000. Mae ceisiadau am £50,000–£100,000 yn cau am hanner dydd - 12.00pm, 24 Mai 2021.
- [Lleoedd Lleol ar gyfer Natur](#) i alluogi cymunedau yng Nghymru i adfer a gwella natur. Grantiau ar gael hyd at £250,000.
- [Coetiroedd Cymunedol](#) i adfer, creu, cysylltu a rheoli coetiroedd yng Nghymru. Grantiau ar gael rhwng £10,000 a £250,000.

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol - Grant Gweithgareddau Haf i Blant

Mae'r elusen Social Farms and Gardens, mewn partneriaeth â Chronfa Elusennol Hilden, yn cynnig [grantiau bach i gefnogi gweithgareddau haf](#) (18 grant o £1,500) er mwyn cefnogi plant o gefndir difreintiedig i gysylltu â natur.

Mae'r gronfa ar gael i *aelodau Social Farms and Garden yn unig*. Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim ac yn agored i unrhyw sefydliad sy'n cyflwyno gweithgareddau ar sail natur i wella bywydau pobl. Rhaid gwario'r grantiau erbyn diwedd Awst 2021. Mae ceisiadau yn cau am hanner dydd 24 Mai 2021. Dilynwch y ddolen uchod am yr holl fanylion.

Dyddiadau ar gyfer y Dyddiadur



[Mis Plannu a Rhannu](#) (19 Ebrill - 19 Mai)

[Mis Cenedlaethol Cerdded](#) (Mai)

[No Mow May](#) (Mai)

[Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl](#) – ‘Natur’ yw’r thema eleni (10 – 16 Mai)

[Diwrnod Ystafell Ddosbarth y Tu Allan](#) (20 Mai)

[Gwanwyn Glân Cymru](#) - Cadwch Gymru’n Daclus (28 Mai - 13 Mehefin)

[Wythnos Natur Cymru](#) (29 Mai - 6 Mehefin)

[Wythnos Genedlaethol Garddio i Blant](#) (29 Mai - 6 Mehefin)

[Wythnos Beiciau](#) (20 Mai - 5 Mehefin)

[Diwrnod Rhoi Cynnig ar Dyfu](#) (5 Mehefin)

[Diwrnod Amgylchedd y Byd](#) (5 Mehefin)

[Wythnos Genedlaethol Tyfu er Lles](#) (7 - 13 Mehefin)

[Diwrnod Aer Glân Cymru](#) (17 Mehefin)



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Harriet Bleach:

harriet.bleach@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Natural Resources Wales

[Website](#) | [Contact us](#)



Subscription Management

[Manage my preferences](#) | [Unsubscribe](#) | [Privacy Policy](#) | [Help](#)